Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

# GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YMESTYN Y CYFNOD LLWYTHO A PHARCIO BATHODYN GLAS) (ARBROFOL) 2026

Wedi'i wneud: 8 Ebrill 2026

Yn dod i rym: 15 Ebrill 2026

Yn dod i ben: hyd at 18 mis o ddod i rym

**MAE CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** ("y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 9 a 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall, ac yn dilyn ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol ag adran 124 a Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y 15fed dydd o Ebrill 2026 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod nad yw'n fwy na deunaw mis.

2) Gellir dyfynnu'r Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr (Ymestyn Y Cyfnod Llwytho a Pharcio Bathodyn Glas) (Arbrofol) 2026.

3) Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

    a) ystyr "Cynlluniau" yw'r cynlluniau sydd ynghlwm yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

    b) ystyr "cerbyd" yw cerbyd a yrrir yn fecanyddol a fwriedir neu a addasir i'w ddefnyddio ar ffyrdd;

    c) ystyr "llwytho" yw llwytho neu ddadlwytho nwyddau i gerbyd neu o gerbyd;

    d) mae gan "fathodyn person anabl" yr un ystyr ag yn Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000, fel y'i diwygiwyd;

    e) ystyr "Gorchymyn Cydgrynhoi 2024" yw Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2024.

4) Diben y Gorchymyn Traffig Arbrofol hwn yw amrywio Gorchymyn Cydgrynhoi 2024 er mwyn:

    a) ymestyn yr oriau a ganiateir ar gyfer llwytho a dadlwytho;

    b) trosi un fae tacsi yn fan parcio bathodyn glas ar Heol Derwen fel y dangosir ar y Cynlluniau;

    c) ymestyn man parcio bathodyn glas presennol y tu allan i Eglwys Fedyddiedig Hope ar Heol Derwen; a

    d) gwerthuso effaith y newidiadau hyn ar lif traffig, diogelwch a hygyrchedd.

5) Ac eithrio fel y darperir yn benodol isod, mae darpariaethau Gorchymyn Cydgrynhoi 2024 yn parhau mewn grym.

**Llwytho a dadlwytho – Oriau Estynedig**

6) Addasir Erthygl 13 o Orchymyn Cydgrynhoi 2024 fel y caniateir i gerbydau lwytho a dadlwytho yn y lleoliadau yng nghanol y dref a bennir ar y Cynlluniau yn ystod y cyfnod rhwng 16:00 ac 11:00, ar yr amod bod y gweithgaredd hwnnw'n barhaus ac nad yw'r cerbyd yn cael ei adael heb oruchwyliaeth.

**Mannau Parcio Bathodyn Glas Ychwanegol**

7) Addasir Erthygl 38 o Orchymyn Cydgrynhoi 2024 fel bod y rhannau o ffyrdd a nodir ar y Cynlluniau drwy hyn, yn ddarostyngedig i weddill darpariaethau Gorchymyn Cydgrynhoi 2024, i'w defnyddio fel mannau parcio ar gyfer cerbydau sy'n arddangos bathodyn

person anabl dilys, a gellir eu defnyddio ar y dyddiau hynny ac yn ystod yr oriau hynny a bennir ar y Cynlluniau.

**Gosododwyd SÊL GYFFREDIN gan GYNGOR )**
**BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR )**
**Yr 8fed dydd hwn o Ebrill 2026 )**
**ym mhresenoldeb:- )**



Llofnodwr Awdurdodedig:

[redacted]

#39317627v1


## Atodlen

Y Cynlluniau


1. Map Cyfansawdd Heol Derwen




2. AC63 Diwygiad 2



3. AC64 Diwygiad 2



4. AD63 Diwygiad 1




#39317627v1

5. AD64 Diwygiad 1

